



# **Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2016/17**

## **Crynodeb Gweithredol a Chynllun Gweithredu**

Ionawr 2018

I gael fersiwn llawn o'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol ebostiwch [quality@caerdydd.ac.uk](mailto:quality@caerdydd.ac.uk)

**Y Tîm Ansawdd a Safonau**

**Y Gofrestrfa**

**Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr**

**Prifysgol Caerdydd**

## **CRYNODEB O ADRODDIAD ANSAWDD BLYNYDDOL 2016/17**

### **Cyflwyniad**

Mae hwn yn grynoded o Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2016/17, sy'n cwmpasu gweithrediad a chanlyniadau'r holl bolisiau a phrosesau rheoli ansawdd academaidd yn ystod cylch academaidd 2016/17. Mae'r adroddiad yn nodi holl elfennau'r system ansawdd academaidd, gan gynnwys gweithgareddau sicrwydd ansawdd, gwella, asesu a derbyn myfyrwyr ac mae'n cadarnhau bod yr holl brosesau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod gweithgarwch gwella yn ymateb i adborth a gofynion allanol. Mae'n nodi gweithgareddau gwella parhaus a chamau gweithredu ar gyfer cylch academaidd 2017/18.

System ansawdd academaidd Prifysgol Caerdydd (polisiau sicrhau a gwella ansawdd, Rheoliadau'r Senedd a chodau ymarfer) sy'n disgrifio'r prosesau academaidd, yr egwyddorion, y rolau a'r cyfrifoldebau academaidd. Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu fframwaith rheoli ansawdd effeithiol ac effeithlon ac yn ei sicrhau ei hun, ei myfyrwyr, ei staff a chyrrff allanol, ynghylch ansawdd a safonau ei darpariaeth. Mae hefyd yn un o'r sianeli cyfathrebu sy'n annog a lledaenu arfer da. Mae'r system yn ddeinamig ac yn fyw, ac yn esblygu'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran arfer da. Disgrifir ein dull o reoli ansawdd yn fanwl ar y tudalennau gwe [Ansawdd a Safonau](#).

Amlygwyd ein dull blynyddol yn seiliedig ar risg o adolygu gweithrediad y system ansawdd academaidd fel maes o ymarfer da yn adolygiad y Leadership Foundation o drefniadau cyrff llywodraethu ar gyfer sicrwydd academaidd. Byddwn yn parhau i adolygu a gwella ein system ansawdd academaidd a bydd yn parhau i gael ei ddiweddarau i fodloni unrhyw ofynion newydd.

Bydd yr adroddiad llawn ar gael ar dudalennau gwe Gwybodaeth Gyhoeddus y Brifysgol. Mae'r crynodeb hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer pob maes sydd â statws risg 'coch', yn cynnwys yr wybodaeth sy'n hanfodol i'r Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu er mwyn iddynt allu bod yn hyderus ynghylch y polisiau a'r prosesau rheoli ansawdd oedd yn weithredol yn ystod cylch academaidd 2016/17.

### **Statws Asesu Risg**

Mae Tabl 1 yn dangos statws risg pob maes gweithgaredd: mae coch yn nodi pryder sydd angen gweithredu sylweddol neu uniongyrchol; mae ambr yn dangos rhai meysydd pryder a allai olygu bod angen gweithredu; mae gwyrdd yn nodi nad oes unrhyw bryderon yn y maes hwnnw, a bod y polisiau a'r gweithdrefnau'n gweithredu'n effeithiol gydag adolygiadau'n cael eu cynnal yn ôl yr amserlen a gytunwyd. Mae'r golofn olaf yn dangos y newid mewn statws ers adroddiad y flwyddyn flaenorol.

**Tabl 1: Crynodeb o Statws Asesu Risg Prosesau Ansawdd**

Enw'r Gweithgarwch	Coch	Ambr	Gwyrdd	Newid ers 2015/16
Adran 2: Rheoliadau Academaidd		Ambr		↓
Adran 3: Derbyn Myfyrwyr		Ambr		=
Adran 4: Adolygu a Gwella Blynyddol			Gwyrdd	=
Adran 4: Arholi Allanol			Gwyrdd	=
Adran 4: Y Polisi Cymeradwyo Rhaglenni		Ambr		=
Adran 4: Fframwaith Polisi Darpariaeth ar y Cyd		Ambr		=
Adran 4: Adolygiad Cyfnodol		Ambr		↓
Adran 4: Achredu gan Gyrrff Proffesiynol			Gwyrdd	=
Adran 5: Profiad y Myfyrwyr		Ambr		↓
Adran 5: Cynllunio a Gwella'r Cwricwlwm		Ambr		(adran ddiwygiedig)
Adran 5: Asesu ac Adborth	Coch			↓
Adran 5: Gwallau Papurau Arholiadau	Coch			↓
Adran 5: Cyhoeddi Canlyniadau	Coch			Adran newydd
Adran 6: Apeliadau Academaidd	Coch			↓

Nid oes unrhyw feysydd gweithgaredd wedi gweld gwelliant sylweddol ers adroddiad ansawdd blynyddol 2015/16 gyda'r rhan fwyaf o feysydd yn cadw 'statws ambr' oherwydd gweithredu newydd neu ychwanegol a ddynodwyd. Mae newidiadau o wyrdd i ambr yn dangos gweithredu sydd ar waith neu nad yw wedi'i gwblhau yn ystod yr amserlenni a ddynodwyd yn wreiddiol.

Mae pedwar maes wedi'u dynodi â statws coch:

- (i) asesu ac adborth;
- (ii) gwallau papurau arholiadau;
- (iii) cyhoeddi canlyniadau;
- (iv) apeliadau academaidd

Ym mhob un o'r meysydd hyn nodir camau gweithredu, a rhoddir blaenoriaeth i gynorthwyo gwelliannau drwy Adolygiad Proses Busnes. Cyflwynir diweddariadau'n rheolaidd i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd.

Isod ceir crynodeb o chwe adran yr adroddiad llawn.

## **Adran 1: Y cyd-destun allanol ar gyfer ansawdd a safonau**

Yn ystod 2016/17 cafwyd nifer o adolygiadau ac ymgynghoriadau allanol, yn adlewyrchu'r newid parhaus yn y dirwedd addysg uwch yng Nghymru a'r DU, a'r effaith y gallai hyn ei gael ar system rheoli ansawdd y Brifysgol. Rydym ni hefyd yn rhagweld newid pellach yn dilyn adolygiad llawn o fethodoleg yr Adolygiad Gwella Ansawdd Peilot, a nodwyd ar gyfer 2017/18 ynghyd ag adolygiad llawn o God Ymarfer yr ASA.

Cyflawnodd Prifysgol Caerdydd raddiad arian yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu 2017, a nodwyd bod "myfyrwyr o bob cefndir yn cyflawni deilliannau ardderchog" a bod "cyfran uchel iawn o fyfyrwyr yn parhau â'u hastudiaethau ac yn mynd ymlaen i gael swydd, swydd hynod fedrus neu astudiaeth bellach".

## **Adran 2: Rheoliadau Academaidd**

Mae'r Rheoliadau Academaidd yn rhoi rheolau, polisiâu a gweithdrefnau pendant ar gyfer pob dyfarniad academaidd a phroses gysylltiedig y Brifysgol. Cyhoeddir y Rheoliadau Academaidd mewn llawlyfr ar y fewnwyd sy'n cynnig ffynhonnell gynhwysfawr a gwerthfawr o wybodaeth. Caiff y Rheoliadau eu hail-weithio a'u hailstrwythuro yn ystod 2017-18, gyda golwg ar gynyddu hygyrchedd, eglurder a dealltwriaeth.

Mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (PSAA) wedi cynnal adolygiad o is-bwyllgorau'r PSAA, a amlygodd rywfaint o ddyblygu proses ac ymdrech. I symleiddio'r broses mae nifer o is-bwyllgorau wedi'u dadsefydlu ar gyfer sesiwn academaidd 2017/18.

## **Adran 3: Derbyng Myfyrwyr**

Parhaodd y sesiwn academaidd i adeiladu ar y Prosiect Cadarnhau, Clirio ac Addasu a'r Prosiect Recriwtio a Derbyng Dewis Cyntaf gyda'r nod cyffredinol o wella ansawdd myfyrwyr, cyrraedd y targedau recriwtio y cytunwyd arnynt, cefnogi ehangu mynediad, gan ddatblygu'r systemau a'r prosesau ymhellach.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnig addysg uwch yn ôl amodau teg a chyfartal. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu yn y maes hwn, mae polisi derbyng myfyrwyr ar sail cyd-destun wedi dechrau. Y maes allweddol ar gyfer ffocws yr adolygiad hwn yw ehangu cyfranogiad drwy ddefnyddio dangosyddion amddifadedd niferus, drwy edrych ar gyrhaeddiad yn erbyn potensial academaidd a chanlyniad gradd. Bydd yr adolygiad yn casglu gwybodaeth ynghylch priodoldeb gwneud cynigion gwahaniaethol ar sail gwybodaeth gyd-destunol a chanlyniadau dysgu sydd ar gael. Caiff argymhellion eu dwyn ymlaen yn ystod 2017/18 gyda golwg ar gyflwyno Polisi Derbyng Myfyrwyr ar sail Cyd-destun yn 2018/9.

Mae'r Brifysgol hefyd yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i dderbyn teg drwy gefnogi sefydlu Canolfan Ragoriaeth Cefnogi Derbyniadau Proffesiynol (SPA) mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth a gyda chefnogaeth CCAUC. Bydd y Ganolfan yn darparu cyfleuster ar gyfer cyd-ymchwilio ac ymarfer gorau cyffredin ar draws Cymru ac yn sicrhau bod digwyddiadau a hyfforddiant yn cael eu darparu'n ddwyieithog gan SPA ar draws rhanbarthau'r gogledd a'r de.

Cynhaliwyd adolygiad o ofynion mynediad israddedig yn ystod 2016/17, yn dilyn gostyngiad yn nhariff UCAS ar adeg mynediad a'r effaith cysylltiedig ar safle cynghrair a nodwyd camau gweithredu. Bydd y gofynion mynediad a gyhoeddir gan bob Ysgol bellach yn dangos y gofynion mynediad nodweddiadol (h.y. lefel y rhan fwyaf o gynigion a wneir) gan anelu at annog cynifer o ymgeiswyr â phosibl (sydd ar y lefel lle byddem ni'n gwneud cynnig) i gyflwyno cais. Mae lefelau cynigion wedi'u cytuno drwy edrych ar berfformiad ac ansawdd ar adeg mynediad.

#### **Adran 4: Safonau Academaidd**

Ymhlith y polisïau a'r gweithdrefnau a adolygir yn yr adran hon mae: adolygiadau blynyddol a chyfnodol; cymeradwyo rhaglenni; darpariaeth gydweithredol; arholi allanol; ac achredu gan gyrff proffesiynol. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod ein polisïau a'n prosesau ar gyfer adolygu a chynnal ein safonau academaidd yn parhau'n gadarn fel yr adroddwyd drwy ein system arholi allanol ac adroddiadau gan gyrff statudol a rheoleiddio.

Nodir manylion y camau gweithredu yn yr adroddiad, gan nodi gwaith pellach i sicrhau bod cwmpas a diben yr holl brosesau sy'n ymwneud ag ansawdd yn cydweddu'n llawn, yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn hyblyg a chyson i ddatblygiadau mewnol ac allanol.

#### **Adran 5: Profiad myfyrwyr**

Nodir tri maes gweithgaredd yn yr adran hon â statws coch, sy'n arwydd o bryder sylweddol: (i) asesu ac adborth (ii) gwallau papurau arholiad a (iii) cyhoeddi canlyniadau.

Parhaodd boddhad myfyrwyr gydag Asesu ac Adborth, yn ôl mesur Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) yn ddigynffwrdd, gyda sgôr y sefydliad yn 69% o'i gymharu â chyfartaledd ar draws y sector o 73%. Mae'r Brifysgol hefyd bellach wedi disgyn yn is na'r canolrif o ran perfformiad Grŵp Russell a Chymru. Ym mis Mai 2017, cymeradwyodd y PSAA set o Ymrwymadau ac Egwyddorion ar Asesu ac Adborth i hybu cysondeb a thryloywder i fyfyrwyr. Mae pob Ysgol wedi mapio eu hymarfer cyfredol yn erbyn yr ymrwymadau a'r egwyddorion ac mae Colegau bellach yn cydweithio gyda'r Ysgolion i sicrhau cyflawni llawn. Mae grŵp lefel uchel wedi'i sefydlu i roi ffocws i'r gwaith hwn a datblygu cynllun gweithredu wedi'i dargedu, fydd yn cynnwys cydweithio gyda myfyrwyr i sicrhau dealltwriaeth gyffredin ynghylch dull asesu Caerdydd.

Yn adroddiad y llynedd, nodwyd bod y risg yn wyrdd yn sgil lleihad yn y nifer o wallau mewn papurau arholiad a rhoddwyd categori gwyrdd i'r risg. Fodd bynnag, ni chafwyd lleihad sylweddol yn y nifer o wallau, felly mae'r statws risg wedi'i gynyddu i 'goch'. Er bod y gwallau'n rhai mân mewn llawer o achosion, ac yn cael eu hunioni o fewn hanner awr cyntaf yr arholiad, roedd peth tarfu ar arholiadau'r myfyrwyr.

Yn ystod prif gyfnod arholiadau'r haf ni chafodd nifer o fyfyrwyr benderfyniad y Bwrdd Arholi ar y dyddiad disgwylidig. Mae ymchwiliadau cychwynnol wedi datgelu amrywiol resymau, ac mae'r Gofrestrfa'n gweithio gyda staff Ysgol a Choleg i nodi achosion penodol, a rhoi datrysiadau ar waith.

#### **Adran 6: Apeliadau academaidd, ymarfer annheg, addasrwydd i ymarfer, addasrwydd i astudio ac achosion disgyblu, cwynion myfyrwyr ac achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.**

Mae adroddiadau unigol ar Gwynion Myfyrwyr ac achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol wedi'u cyflwyno'n flaenorol i'r Senedd a'r Pwyllgor Llywodraethiant ar wahân i'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol oedd yn adrodd ar feysydd eraill o waith achos myfyrwyr: apeliadau academaidd, ymarfer annheg, addasrwydd i ymarfer, addasrwydd i astudio; disgyblu myfyrwyr. O 2016/17 ymlaen caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwaith achos myfyrwyr eu cynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol gan y gallent gynnig tystiolaeth o faterion yn ymwneud â phrofiad academaidd myfyrwyr.

Mae apeliadau academaidd yn faes pryder gyda statws risg 'coch', yn bennaf oherwydd oedi o ran prosesu apeliadau o fewn yr amserlen 90 diwrnod a nodir yn fframwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae capasiti staff ychwanegol wedi'i drefnu i ddellio ag apeliadau'n

fwy cyflym, ac rydym ni'n edrych ar y potensial ar gyfer mwy o ddefnydd o SIMS i sicrhau system apeliadau mwy effeithiol.

### **Casgliad**

Casgliad yr adroddiad yw y gall y Brifysgol barhau i fod â hyder yn yr holl bolisiau a phrosesau rheoli ansawdd a fu'n weithredol yn ystod cylch academaidd 2016/17. Er bod rhai meysydd penodol yn destun pryder, rydym ni'n cymryd camau priodol ym mhob un o'r rhain ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

## CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU

Nodir y camau gweithredu sydd â statws risg 'coch' isod gan fod angen gweithredu sylweddol neu ar unwaith:

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Y Person sy'n Gyfrifol	Cwblhau erbyn	Statws Risg
<b>Asesu ac Adborth</b>				
5.5.1	Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chefnogi Addysg i gydweithio gydag Ysgolion i gydweddu gydag 'Egwyddorion ac Ymrwymadau' y Brifysgol yn ogystal â chefnogi gweithgareddau gwella parhaus mewn Ysgolion unigol gan gynnwys y Pecyn Cymorth Cynllunio Cwricwlwm newydd.	Pennaeth y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chefnogi Addysg	Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2017/18	Coch
5.5.1	Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chefnogi Addysg i barhau i gynorthwyo Rhwydweithiau Arweinwyr Asesu ac Adborth ym mhob Coleg i arwain gwelliannau strategol mewn asesu ac adborth, yn cynnwys adolygu'r holl ofynion arweinyddiaeth yn y maes gweithgaredd hwn.	Pennaeth y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chefnogi Addysg	Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2017/18	Coch
5.5.1	Rhaglen Taith Myfyrwyr yn y Portffolio Addysg i ddatblygu cyfres o brosiectau i wella'r ffordd mae Ysgolion yn cynllunio a monitro asesu i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu 'Pecyn Amserlennu Asesu' prototeip i alluogi staff i weld y patrymau asesu ar draws rhaglenni;</li> <li>• cyhoeddi amserlen Asesu unigol i fyfyrwyr, i'w dreialu i ddechrau yn yr Ysgol Busnes;</li> <li>• treialu offeryn Integreiddio Marciau Asesiadau, i ganiatáu trosglwyddo marciau'n awtomatig rhwng Dysgu Canolog a SIMS.</li> </ul>	Rhaglen Taith Myfyrwyr yn y Portffolio Addysg.	Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2017/18	Coch

<b>Gwallau Papurau Arholiadau</b>				
5.6.1	Deoniaid y Coleg Swyddogion Addysg y Coleg i weithio mewn partneriaeth gydag Ysgolion i gadarnhau ymhle mae gwallau wedi'u canfod neu bapurau sydd wedi'u cyflwyno'n hwyr a chytuno ar weithredu i leihau gwallau yn y dyfodol.	Deoniaid y Coleg Swyddogion Addysg y Coleg a Rheolwyr yr Ysgol	Adroddiad i'r Cyngor ar y canfyddiadau a chynllun gweithredu	Coch
<b>Cyhoeddi Canlyniadau</b>				
5.7.1	Swyddogion Addysg y Coleg i nodi rhesymau am oedi gyda datrysiadau posibl a rhannu meysydd o ymarfer da	Swyddogion Addysg y Coleg	Diwedd mis Tachwedd 2017 a chyflwyno adroddiad i PSAA ym mis Ionawr 2018	Coch
5.7.1	Bydd Swyddogion Addysg y Coleg yn nodi'r achosion pam fod marciau a gyfrifwyd yn cael eu newid er mwyn nodi datrysiadau a lleihau'r angen am newid.	Swyddogion Addysg y Coleg	Adroddiad i'w gyflwyno i PSAA ym mis Ionawr 2018	Coch
5.7.1	Bydd Swyddogion Addysg y Coleg yn cytuno gyda rheolwyr yr Ysgol ar amserlen ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Arholi a dyddiadau rhyddhau canlyniadau. Defnyddio amserlen i gadarnhau bod digon o staff ar gael i brosesu penderfyniadau a chyhoeddi canlyniadau i fyfyrwyr ar amser.	Swyddogion Addysg y Coleg	Adroddiad i'w gyflwyno i PSAA ym mis Ionawr 2018	Coch
5.7.1	Sefydli'r rhaglen ddiwygiedig o hyfforddiant a chyfarwyddyd i Gadeiryddion Byrddau Arholi a staff gwasanaethau proffesiynol sy'n cynorthwyo Byrddau Arholi i sicrhau eglurder y gofynion, cysoni arferion gwaith, ymdrin â phroblemau neu gwestiynau i sicrhau bod diwygiadau i ganlyniadau ac ymholiadau ar ôl y Bwrdd yn cael eu lleihau.	Dirprwy Bennaeth y Gofrestrfa	Amserlen i'w chyflwyno i PSAA ym mis Ionawr 2018	Coch



<b>Apeliadau Academaidd, Arfer Annheg, Addasrwydd i Ymarfer ac Achosion Disgyblu</b>				
6.1.2	Y Tîm Achosion Myfyrwyr i fonitro ac adrodd cynnydd achosion i'r Cofrestrydd Academaidd yn rheolaidd.	Pennaeth Achosion Myfyrwyr	Diweddariadau i'r Cofrestrydd Academaidd i hysbysu PSAA a'r Cyngor.	Coch
6.1.2	Bydd y Tîm Achosion Myfyriwr yn parhau i fonitro ac yn adolygu sut mae system apeliadau SIMS yn gweithredu yn ystod sesiwn 2017/18 gan nodi meysydd o arfer da a meysydd pellach i'w datblygu a gwella prydlondeb yr ymateb.	Pennaeth Achosion Myfyrwyr	Diweddariadau i'r Cofrestrydd Academaidd i hysbysu PSAA a'r Cyngor.	Coch
6.1.2	Y Tîm Achosion Myfyrwyr i adrodd ynghylch effaith staff arbenigol ar amseroldeb prosesu achosion yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2017/18.	Pennaeth Achosion Myfyrwyr	Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2017/18	Coch
6.1.4	Y Tîm Achosion Myfyrwyr i barhau i fonitro ac adolygu gwaith prosesu apeliadau a gyflwynir yn dilyn canlyniadau gwanwyn a haf 2017.	Pennaeth Achosion Myfyrwyr	Diweddariadau i'r Cofrestrydd Academaidd i hysbysu PSAA a'r Cyngor.	Coch